**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1885 (Cy. 131 )

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) (Diwygio) (Cymru) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig. Maent yn diwygio -

(a) Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) 1994 (O.S. 1994/3082, fel y'u diwygiwyd); a

(b) Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio 1996 (O.S. 1996/3124)

yn y naill achos a'r llall i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru (mae O.S. 1994/3082 ac O.S. 1999/3124 ill dau yn gymwys i Brydain Fawr gyfan).

2. Effaith y diwygiadau uchod yw caniatáu trydydd dull o baratoi bwydydd parod ar sail cig o 31 Gorffennaf 2000 ymlaen yn unol â phwynt 2(a) o Bennod IX o Atodiad B i Gyfarwyddeb y Cyngor 77/99/EEC (a fewnosodwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 95/68/EC, OJ Rhif L332, 30.12.95, t.10).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1885 (W. 131 )

# FOOD, WALES

## The Meat Products (Hygiene) (Amendment) (Wales) Regulations 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

1. These Regulations apply to Wales only. They amend -

(a) the Meat Products (Hygiene) Regulations 1994 (S.I. 1994/3082, as amended); and

(b) the Products of Animal Origin (Import and Export) Regulations 1996 (S.I. 1996/3124

in each case insofar as they apply to Wales (S.I. 1994/3082 and S.I. 1999/3124 both apply to the whole of Great Britain).

2. The effect of the above amendments is that in accordance with point 2(a) of Chapter IX of Annex B to Council Directive 77/99/EEC (inserted by Council Directive 95/68/EC, OJ No. L332, 30.12.95, p.10) a third method of preparation for meat-based prepared meals is permitted with effect from 31 July 2000.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1885 (Cy. 131 )

## BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) (Diwygio) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *14 Gorffennaf 2000* |
| *Yn dod i rym* | *31 Gorffenaf 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(1)(b),(c),(d),(e) ac (f), 17(1), 26, 45, 48(1) a 49(2) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**a**) a pharagraffau 5(1), (2) a (3) a 6(1)(a) o Atodlen 1 iddi, ar ôl iddo ystyried y cyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno ac ar ôl iddo, yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, ymgynghori ac (i'r graddau na ellid bod wedi gwneud y Rheoliadau hyn o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990) gan ei fod wedi'i ddynodi(**b**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**c**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(2), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) (Diwygio) (Cymru) 2000, byddant yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2000.

**Diwygiad i Reoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) 1994**

**2**.-(1) Diwygir Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) 1994(**ch**) yn unol â pharagraff (2) isod i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

(a) 1990 p.16. *Gweler* adran 4(1) i gael diffiniad o "the Ministers". Trosglwyddwyd y swyddogaethau a freiniwyd yng Ngweinidogion y Goron i Gymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Diwygiwyd adran 48 gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28).

(b) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 1999 (O.S. Rhif 1999/2788).

(c) 1972 p.68.

(ch) O.S. 1994/3082 a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/539, O.S.1995/1763, O.S. 1995/2200, O.S. 1995/3205, O.S. 1996/1499 ac O.S. 1999/683.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1885 (W. 131 )

## FOOD, WALES

## The Meat Products (Hygiene) (Amendment) (Wales) Regulations 2000

| | |
|---|---|
| *Made* | *14th July 2000* |
| *Coming into force* | *31st July 2000* |

The National Assembly for Wales in exercise of the powers conferred on it by sections 16(1)(b),(c),(d),(e) and (f), 17(1), 26, 45, 48(1) and 49(2) of, and paragraphs 5(1), (2) and (3) and 6(1)(a) of Schedule 1 to, the Food Safety Act 1990(**a**), after having regard in accordance with section 48(4A) of that Act to relevant advice given by the Food Standards Agency and after consultation in accordance with section 48(4) and (4B) of that Act, and (insofar as these Regulations could not have been made under the Food Safety Act 1990) being designated(**b**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**c**) in relation to the common agricultural policy of the European Community, in exercise of the powers conferred on it by section 2(2), makes the following Regulations:

**Title, application and commencement**

**1**. These Regulations may be cited as the Meat Products (Hygiene) (Amendment) (Wales) Regulations 2000, shall apply to Wales only and shall come into force on 31 July 2000.

**Amendment to the Meat Products (Hygiene) Regulations 1994**

**2**.-(1) The Meat Products (Hygiene) Regulations 1994(**d**) are amended in accordance with paragraph (2) below insofar as they apply to Wales.

(a) 1990 c.16. *See* section 4(1) for a definition of "the Ministers". Functions vested in Ministers of the Crown were, in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). Section 48 was amended by paragraph 21 of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (c. 28).

(b) By virtue of the European Communities (Designation) (No.3) Order 1999 (S.I. No. 1999/2788).

(c) 1972 c.68.

(d) S.I. 1994/3082 amended by S.I. 1995/539, S.I.1995/1763, S.I. 1995/2200, S.I. 1995/3205, S.I. 1996/1499 and S.I.1999/683.

(2) Rhoddir y paragraff canlynol yn lle paragraff 2(a) o Ran IX o Atodlen 2-

"2.(a) The meat product to be used in the prepared meal shall as soon as it has been cooked -

(i) be mixed with the other ingredients as soon as practically possible; in that event the time during which the temperature of the meat products is between 10ºC and 60ºC shall not exceed two hours,

(ii) be refrigerated to 10ºC or less before being mixed with the other ingredients, or

(iii) be cooled and mixed with the other ingredients in such a way (to be specified in the approval document for the establishment concerned) that the timing during which the temperature of the meat product is between 10ºC and 60ºC is kept to a minimum;".

**Diwygiad canlyniadol**

**3**. I'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, diwygir Atodlen 2 i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996(**a**) (Rheoliadau sy'n berthnasol i fasnachu o fewn i'r Gymuned) drwy fewnosod y cyfeiriad canlynol ar ddiwedd paragraff 5 -

"The Meat Products (Hygiene) (Amendment) (Wales) Regulations 2000.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**)

14 Gorffennaf 2000

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(a) O.S. 1996/3124 a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/539, O.S. 1995/1763, O.S. 1995/2200, O.S. 1995/3205, O.S. 1996/1499 ac O.S. 1999/683. Cymhwyswyd O.S. 1996/3124 gan O.S. 1996/3125 i fewnforio cig ffres.

(b) 1998 p.38.

(2) The following paragraph is substituted for paragraph 2(a) of Part IX of Schedule 2 -

"2.(a) The meat product to be used in the prepared meal shall as soon as it has been cooked -

(i) be mixed with the other ingredients as soon as practically possible; in that event the time during which the temperature of the meat products is between 10ºC and 60ºC shall not exceed two hours,

(ii) be refrigerated to 10ºC or less before being mixed with the other ingredients, or

(iii) be cooled and mixed with the other ingredients in such a way (to be specified in the approval document for the establishment concerned) that the timing during which the temperature of the meat product is between 10ºC and 60ºC is kept to a minimum;".

**Consequential amendment**

**3**. Insofar as it applies to Wales, Schedule 2 to the Products of Animal Origin (Import and Export) Regulations 1996(**a**) (Regulations relevant to intra-Community trade) shall be amended by the insertion of the following reference at the end of its paragraph 5 -

"The Meat Products (Hygiene) (Amendment) (Wales) Regulations 2000.".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**)

14th July 2000

*Jane Davidson*

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) S.I. 1996/3124 amended by S.I. 1995/539, S.I. 1995/1763, S.I. 1995/2200, S.I. 1995/3205, S.I. 1996/1499 and S.I. 1999/683. S.I. 1996/3124 has been applied by S.I. 1996/3125 to imports of fresh meat.

(b) 1998 c.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2000 Rhif 1885 (Cy. 131 )

## BWYD, CYMRU

# Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Hylendid) (Diwygio) (Cymru) 2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2000 No. 1885 (W. 131 )

## FOOD, WALES

# The Meat Products (Hygiene) (Amendment) (Wales) Regulations 2000

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090123-1

9 780110 901237

**£1.75**

W75 10/00 ON